




Fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion - Edrych tuag ymlaen I ba raddau...	
Arweinyddiaeth gref ar draws a thrwy'r ysgol neu'r lleoliad	y mae arweinwyr yn mynegi ac yn cyfleu, yn gyson, gweledigaeth gytûn ac argyhoeddiadol i'r ysgol?
	y mae arweinwyr yn modelu'r ymddygiad a ddisgwylir gan eraill?
	y mae arweinwyr yn gweithio gyda chymuned yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr/ymddiriedolwyr, i weithredu uchelgeisiau strategol?
	y mae arweinwyr yn dwyn cyd-weithwyr i gyfrif am eu heffaith ar ddeilliannau?
	y mae arweinwyr yn defnyddio ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ymchwil yn yr ysgol, i herio syniadau ac arferion?
	y mae arweinwyr yn cefnogi cyd-weithwyr i ddatblygu eu harbenigedd arweinyddol fel y daw staff i fod yn arweinwyr effeithiol?
	y mae arweinwyr yn deall beth yw 'addysgu effeithiol', ac yn galluogi eu hathrawon i gyrraedd y safon?
	y mae arweinyddiaeth disgyblion yn rhan o fywyd dydd i ddydd yr ysgol?
System lywodraethu atebol	y mae'r Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr yn gweithio gyda'r UDA i sefydlu gweledigaeth a strategaeth gytûn, a sicrhau y gweithredir y rhain?
	y mae ffocws y Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr a'r uwch arweinwyr yn sicrhau deilliannau gwell?
	y mae'r Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr yn rhagweithiol ac yn effeithiol wrth ddwyn arweinwyr i gyfrif, gan gymryd camau gweithredu priodol os oes angen?
	y mae'r Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr yn mynd ati i hunan arfarnu yn drylwyr er mwyn deall blaenoriaethau gwella strategol?
	y mae'r Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr yn rhoi gwerth am arian wrth reoli adnoddau?
	y mae'r Corff Llywodraethu/Ymddiriedolwyr yn hunan arfarnu ei effeithiolrwydd ei hunan?
	y mae'r Cadeirydd yn darparu arweinyddiaeth i'r corff, gan gefnogi dealltwriaeth yr aelodau a'u perfformiad mewn perthynas â'u rôl a'u cyfrifoldebau?
Diwylliant ac ethos ar gyfer gwella	y mae gwerthoedd craidd wedi'u gwreiddio yn sut y mae'r ysgol gyfan a'r gymuned yn ymddwyn?
	y mae cymuned gyfan yr ysgol yn rhannu dyheadau ac uchelgeisiau cytûn ar gyfer yr ysgol, er enghraifft llywodraethwyr/ymddiriedolwyr, arweinwyr, staff?
	y mae pob arweinydd yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau gwella allweddol?
	y mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn ceisio cyfleoedd dysgu, ac yn cael eu hysbrydoli i ddysgu er mwyn cyflawni eiliannau gwell?
	y mae pob aelod o'r gymuned yn rhan o wella'r ysgol?



Fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion - Edrych tuag i mewn I ba raddau...	
Addysgu effeithiol	y mae gan athrawon wybodaeth bynciol ac addysgegol dda, yn benodol mewn llythrennedd a mathemateg?
	y mae athrawon yn defnyddio technegau yn hyblyg ac yn amserol wrth addysgu llythrennedd a mathemateg?
	y mae athrawon yn gwybod beth yw addysgu da a sut i wella'r addysgu, yn benodol mewn llythrennedd a mathemateg?
	y mae athrawon yn arddangos disgwiliadau uchel a pherthynas gadarnhaol gyda disgyblion?
	y mae cymorth ychwanegol yn y dosbarth, yn benodol mewn llythrennedd a mathemateg, yn ychwanegu gwerth i'r dysgu?
	y mae systemau rheoli perfformiad yn cefnogi addysgu rhagorol?
	y mae arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth bynciol mewn llythrennedd a mathemateg, yn cefnogi addysgu effeithiol?
Meithrin gallu a datblygiad proffesiynol	y mae dysgu proffesiynol yn nodwedd o waith dydd i ddydd yr ysgol/lleoliad?
	y targedir datblygiad proffesiynol at grwpiau penodol neu unigolion, gan gynnwys athrawon sy'n newydd i'r proffesiwn?
	y mae uwch arweinyddiaeth yn deall yr angen am ddatblygiad proffesiynol, gan gynnwys gwerth hyfforddi?
	y mae ffocws cyfartal mewn datblygiad proffesiynol ar wybodaeth bynciol ac addysgeg i wella ansawdd yr addysgu?
	y mae athrawon yn cyd-ddysgu ac yn cydweithio mewn ffyrdd ystyrlon?
	y mae'r ysgol yn croesawu arloesi, arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn datblygu ei gwybodaeth am y proffesiwn?
Systemau rheoli cefnogol	y mae prosesau clir, cynaliadwy ac sydd wedi hen sefydlu er mwyn cefnogi athrawon, gan gynnwys systemau asesu?
	y mae'r ysgol yn arddangos diwylliant o hunan arfarnu trylwyr?
	y mae arweinwyr ar bob lefel yn monitro, yn ysbrydoli ac yn cefnogi'r addysgu?
	y defnyddir systemau a pholisiau dydd i ddydd i gefnogi addysgu rhagorol?
	y mae'r ysgol/lleoliad yn datblygu, yn gwella ac yn arloesi'r cwricwlwm yn barhaus?
	y mae'r cwricwlwm yn ysbrydoli, yn cymell ac yn cynnig cyfle ar gyfer dysgu creadigol?



Fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion - Edrych tuag allan I ba raddau...	
Ymgysylltu â rhieni a theuluoedd	y mae arweinyddiaeth ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â rhieni, ac y mae prosesau neu systemau ar waith i fonitro llwyddiant ymdrechion i ymgysylltu â rhieni a theuluoedd?
	y mae gan deuluoedd berthynas gadarnhaol â'r ysgol/lleoliad er mwyn cefnogi dysgu disgyblion, ac yn bartneriaid gweithredol?
	y mae cyfleoedd ystyrlon i rhieni a theuluoedd fod yn rhan o ddysgu eu plant, yn benodol i gefnogi dysgu mewn llythrennedd a mathemateg?
	y mae'r ysgol yn casglu adborth gan rhieni a'r gymuned ac yn ymateb iddo, gan gynnwys deall y rhwystrau all lesteirio ymgysylltiad rhieni?
	y mae'r ysgol yn cefnogi rhieni ac yn eu haddysgu i gefnogi dysgu eu plant, yn benodol mewn llythrennedd a mathemateg?
	y mae'r ysgol/lleoliad yn fodd i ddisgyblion ddatblygu fel aelodau o gymuned fyd-eang? ^[1] _[SEP]
Ymgysylltu â'r gymuned	y mae tîm arweinyddiaeth yr ysgol yn blaenoriaethu ac yn cynllunio ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned er mwyn cefnogi gwelliant mewn dysgu ?
	y mae amcanion a rolau clir i uwch arweinwyr, athrawon a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig ag ymgysylltiad cymunedol, a hy nny er mwyn cefnogi disgyblion i fod yn rhan o'u dysgu?
	y cynllunnir digwyddiadau i sefydliadau cymunedol fod yn rhan o gefnogaeth ystyrlon i gyfoethogi cyfleoedd dysgu disgyblion?
	y mae cyfathrebu dwyffordd effeithiol rhwng yr ysgol a sefydliadau cymunedol er mwyn cefnogi cyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion ddysgu y tu hwnt i'r diwrnod ysgol?
Partneriaethau, cydweithio ac arweinyddiaeth system	y mae dealltwriaeth glir o natur, pwrpas a ffiniau partneriaethau a gweithio ar y cyd?
	y mae gweledigaeth glir i'r bartneriaeth neu i'r gweithio ar y cyd, sy'n canolbwyntio ar wella ysgol a gwella system?
	y mae deilliannau yn cael eu monitro a'u gwerthuso mewn ysbryd o greu hinsawdd o atebolrwydd a gwelliant parhaus sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth?
	y rhennir data a'i ddefnyddio i gefnogi gwelliant ar draws y bartneriaeth neu'r cydweithio?
	y mae ffocws y bartneriaeth neu'r cydweithio ar feithrin gallu ar bob lefel i gefnogi gwelliannau yn y dyfodol?
	y caiff bob aelod staff gyfle i weithio gydag ysgolion/lleoliadau eraill yn y bartneriaeth, yn ogystal â phartneriaethau ehangach ar faterion gwella ysgol?



Fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion - Ein Heffaith I ba raddau...	
1. Casglu gwybodaeth a' i defnyddio	y mae systemau clir, hylaw a defnyddiol ar gyfer casglu a defnyddio data am berfformiad disgyblion?
	y mae disgyblion ym mhob grŵp yn gwneud cynnydd?
	y mae'r data yn dangos cyrhaeddiad pob grŵp o ddisgyblion mewn perthynas â chyrraedd y safon ddisgwylidig?
	y mae data, neu wybodaeth, yn llywio penderfyniadau ac arferion addysgegol amser real?
2. Ehangder sgiliau addysgegol	y mae disgyblion yn rhan o'u dysgu?
	y mae disgyblion yn ddysgwyr annibynnol, chwilfrydig a gweithredol mewn pynciau craidd?
	y mae disgyblion yn defnyddio amrediad eang o ddulliau addysgegol i hybu diwylliant o ddysgu?
	y mae cyd-ddealltwriaeth o arferion addysgegol rhagorol?
	y mae athrawon yn defnyddio amrediad eang o adnoddau yn effeithiol, gan gynnwys cymorth ychwanegol?
	y mae cynllun y cwricwlwm yn gwella dysgu disgyblion?
	y mae athrawon yn hybu diwylliant sy'n annog asesu ar gyfer dysgu ac yn defnyddio modelau asesu sy'n cefnogi dysgu?
3. Ehangder a dyfnder cyfleoedd a datblygiad sgiliau	y mae pob disgybl yn datblygu fel dinasyddion ifanc ac yn cael eu cefnogi i ddod yn feddylwyr gweithredol a beirniadol am y byd?
	y mae disgyblion yn elwa ar raglen o arweiniad cydlynol a chynhwysfawr?
	y mae'r cwricwlwm yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ar draws amrediad llawn o ddisgyblaethau?
	y rhoddir cyfleoedd ystyrion i ddisgyblion ddatblygu amrediad eang o dalentau a diddordebau?
	y mae disgyblion yn datblygu cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth o'u dyheadau dysgu, a'r gwytnwch i fwrw ymlaen?